Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

Gwella gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru

# Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2017-18



# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Ein sefydliad** | **6** |
| **Ein harolygiadau** | **13** |
| **Cyflawniadau sefydliadol** | **30** |
| **Edrych ymlaen** | **34** |

## Sut i godi pryder

Ymweld ag un o'n swyddfeydd

Ein ffonio: 0300 7900 126

Anfon e-bost aton ni: AGC@llyw.cymru

Ysgrifennu aton ni:
Arolygiaeth Gofal Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

www.arolygiaethgofal.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35518
ISBN digidol 978-1-78964-262-9

# Rhagair



"Bu'n flwyddyn brysur iawn. Cynhaliwyd 2,955 o arolygiadau gennym, ac roeddem yn gyfrifol am reoleiddio 5,968 o wasanaethau ledled Cymru. Mae'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio yn cyffwrdd bywydau cymaint o bobl, ac rydym yn parhau i sicrhau bod lles pobl sy'n agored i niwed wrth wraidd popeth a wnawn."

*Gillian Baranski, Y Prif Arolygydd*

# Rhagair

Croeso i'm hadroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a heriol i'r sefydliad gan fod AGC wedi rheoleiddio 5,968 o wasanaethau a chynnal 2,955 o arolygiadau yn ystod y cyfnod.

Mae 2017-18 wedi bod yn gyfnod o newid mawr hefyd. Rydym wedi cyflwyno nifer o brosesau newydd a ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau ein bod yn barod i ateb heriau yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol arfaethedig.

Mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn ac, eleni, rydym wedi adolygu a myfyrio ar y ffordd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyrraedd y safonau uchaf posibl ac yn helpu i wella canlyniadau i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys:


- Adolygu a gwella ein gwasanaethau digidol gan gynnwys ein gwasanaeth cofrestru ar-lein newydd, rhan o 'AGC Ar-lein', sy'n helpu darparwyr i gydymffurfio â gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 – Deddf 2016.
- Datblygu ein cynllun strategol tair blynedd uchelgeisiol ar gyfer 2017-20 sy'n amlinellu ein blaenoriaethau fel sefydliad, sef darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson, bod yn fedrus, yn alluog ac yn ymatebol, bod yn llais arbenigol er mwyn ysgogi gwelliannau a rhoi deddfwriaeth ar waith yn effeithiol.
- Gorffen adolygu ein model gweithredol a chyflwyno ein strwythurau swyddogaethol cenedlaethol newydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar dalentau a sgiliau ein gweithlu a sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyson, o ansawdd uchel ledled Cymru.
- Gweithio mewn ffyrdd newydd er mwyn cefnogi newidiadau deddfwriaethol, gan gynnwys treialu fframwaith arolygu ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu sy'n gyson â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a datblygu fframweithiau a methodolegau arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf 2016.
- Cytuno ar werthoedd craidd newydd i'r sefydliad, sy'n adlewyrchu ein dyhead i weithio gydag uniondeb, dangos parch, bod yn ofalgar, bod yn deg a bod yn broffesiynol bob amser.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid am newidiadau allweddol i'r sefydliad gan gynnwys symleiddio ein henw i Arolygiaeth Gofal Cymru, diweddaru ein logo a chwblhau adolygiad o'r ffordd y mae ein Bwrdd Cynghori yn cyfrannu at ein gwaith.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn drawsnewidiol ac ni fyddai ein cyflawniadau wedi bod yn bosibl heb gydweithio â'n partneriaid allweddol, gan gynnwys cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a sefydliadau partner o'r sector gofal cymdeithasol a gofal plant...

...Ond heb ymroddiad, ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff, ni fyddem wedi cyflawni popeth a wnaethom. Ein staff yw ein hased mwyaf ac rwy'n ddiolchgar iawn i bob un ohonynt am eu ffocws, eu cymhelliant a'u hangerdd di-ildio i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau cynifer o bobl.

Braint o'r mwyaf yw cael bod yn Brif Arolygydd y sefydliad rhagorol hwn. Rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf a'r heriau a'r cyfleoedd cyffrous a fydd yn sicr o godi.





**Gillian Baranski**
Prif Arolygydd

# Ein sefydliad



"Rydym wedi gwneud cynnydd mawr yn ystod y flwyddyn, ac yn parhau i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd ac a amlinellwyd yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017-20. Bydd y newidiadau a wnaed gennym yn ystod y cyfnod hwn yn cefnogi ein hymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel ym mhob rhan o Gymru."

*Gillian Baranski, Prif Arolygydd*

# Ein sefydliad

## Pwy ydym ni

**Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sef rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.**

**Y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ac yn eu harolygu:**

- Cartrefi gofal i oedolion, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gofal nyrsio
- Asiantaethau gofal yn y cartref
- Cynlluniau lleoliadau oedolion
- Asiantaethau nyrsys
- Cartrefi plant
- Gwasanaethau gofal plant a chwarae i blant hyd at 12 oed
- Asiantaethau maethu
- Asiantaethau mabwysiadu
- Ysgolion preswyl
- Canolfannau preswyl i deuluoedd

Cyfeiriwn at y rhain fel "gwasanaethau rheoleiddiedig".

Rydym yn arolygu ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl a cholegau addysg bellach sy'n lletya myfyrwyr o dan 18 oed. Rydym hefyd yn arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn cynnal adolygiadau cenedlaethol er mwyn monitro pa mor dda y mae gwasanaethau yn perfformio.

## Ein pwerau cyfreithiol

**Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru o dan bwerau'r Deddfau canlynol:**

- **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003** sy'n rhoi'r awdurdod i ni adolygu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol.
- **Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002**, a **Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010** sy'n rhoi'r pŵer i ni gofrestru ac arolygu gwasanaethau.
- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** sy'n rhoi'r pŵer i ni gofrestru ac arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig oedolion a phlant.

## Ble i gael rhagor o wybodaeth

- Rydym yn ysgrifennu adroddiadau ar bob un o'n harolygiadau a'n hadolygiadau.
- Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn am nifer y gwasanaethau a'r lleoedd rydym yn eu rheoleiddio.

Mae ein cyfeiriadur o wasanaethau a rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan www.arolygiaethgofal.cymru.

Gallwch hefyd ein dilyn ar
Twitter @arolygu_gofal
Facebook @arolygugofal

# Rôl ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

**Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol yn rhoi llais i bobl o ran y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith.**

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan yr Athro Judith Hall ac mae'n cynnwys aelodau o'r sector gofal plant, y sector gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys gofalwyr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arbenigedd a chyngor i'n helpu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant er lles pobl Cymru.

Mae hefyd yn ein helpu i bennu ein blaenoriaethau strategol; yn monitro ac yn herio ein lefelau cyflawni a pherfformiad; ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith.



"Mae hwn yn fwrdd sydd wir am glywed am y problemau a wynebir gan ofalwyr yn y byd go iawn."

*Jennie Lewis, aelod o'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a gofalwr*

## Prif gyflawniadau ac uchafbwyntiau

**Cynhadledd 'Llawer o Leisiau'**

Yn rhoi cyngor ar sut y dylai AGC roi newidiadau i'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau ar waith.

**Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

Yn rhoi adborth fel rhan o gam 2 yr ymgynghoriad ar gyfer y Ddeddf.

**Adolygiad o'r strwythur**

Yn rhoi adborth ar y newidiadau arfaethedig i strwythur AGC ac yn adolygu rôl grwpiau cynghori AGC yn y dyfodol.

**Cynllun Strategol 2017-20 AGC**

Yn rhoi adborth ac awgrymiadau ar ein blaenoriaethau strategol a'n camau gweithredu.

**Cynllun Strategol 2017-20 AGC**

Yn helpu i lansio ein cynllun tair blynedd fel rhan o'i gyfarfod yng Nghyffordd Llandudno.

**Lleisiau o'r sector**

Yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gan ofalwyr, defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr o bob sector gofal cymdeithasol ym mhob cyfarfod.




"Bu 2017-18 yn flwyddyn gyffrous a heriol yn hanes AGC a bu'r Bwrdd yn cydweithio ag AGC i sicrhau bod llais y bobl yn cael ei glywed.

Mae aelodau'r Bwrdd wedi rhannu eu gwybodaeth arbenigol a'u dirnadaeth i helpu AGC i lunio a chyflawni ei gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau o dan y fframwaith deddfwriaethol newydd. Yn ystod y flwyddyn, mae'r aelodau wedi cyfrannu at ymgyngoriadau, fforymau a digwyddiadau i randdeiliaid ar nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys rheoleiddio ac arolygu yn y dyfodol fel rhan o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016).

Mae'r Bwrdd hefyd wedi helpu AGC i ddatblygu a chyflwyno ei chynllun strategol ar gyfer 2017-20 ac roedd yn bleser gennym lansio'r cynllun yn ffurfiol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd yn y gogledd. Bydd y Bwrdd yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau strategol a'r camau gweithredu yn fanwl er mwyn sicrhau bod AGC yn cyflawni ei huchelgais i wella'n barhaus a bod cystal sefydliad ag y gellir.

Yn dilyn ailstrwythuro sefydliadol AGC ym mis Tachwedd, adolygodd y Bwrdd ei fformat a'i ddiben er mwyn sicrhau bod grwpiau rhanddeiliaid AGC yn adlewyrchu'r strwythurau cenedlaethol newydd. Er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn, diddymwyd grwpiau Ein Llais ac ehangwyd aelodaeth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol, a gwahoddwyd aelodau grwpiau Ein Llais i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni gwaith yn y dyfodol drwy weithdai arbenigol a grwpiau ffocws."

*Yr Athro Judith Hall, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol*

# Ein gweithlu

## Ein staff

283 o staff ledled Cymru

## Ein swyddfeydd

Caerfyrddin

Cyffordd Llandudno

Merthyr Tudful

## Ein Tîm Uwch-reolwyr

Prif Arolygydd

Prif Arolygydd Cynorthwyol x 2

Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant

Pennaeth Arolygu Gofal Plant a Chwarae

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Pennaeth Cofrestru a Gorfodi

Pennaeth Gwasanaethau Cymorth

Pennaeth y Tîm Newid (Digidol)

## Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

**Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo angen hyn ar bobl yng Nghymru.**

Rydym yn parhau i weithio'n galed i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2016 a Mwy na Geiriau – Fframwaith Strategol Dilynol. Rydym yn ymrwymedig o hyd i ddarparu gwasanaethau ardderchog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei adolygu gan arolygwyr sy'n siarad Cymraeg. Wrth arolygu, rydym yn ceisio canfod profiadau pobl o ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg ac rydym yn cofnodi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu. Rydym yn parhau i roi sylw penodol i anghenion Cymraeg grwpiau sy'n agored i niwed megis pobl â dementia a phlant sy'n cael gwasanaethau gofal dydd.


Er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol drwy'r sefydliad cyfan, ac fel rhan o'r ymrwymiadau a wneir yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017-20, rydym wedi penodi Hyrwyddwr y Gymraeg eleni. Drwy'r rôl hon, rydym yn anelu at wella'r ffordd rydym yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a dwyieithrwydd drwy'r sefydliad cyfan.

# Cyllideb

Cyllideb AGC gyfer 2017-18 oedd £13,953,000. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd £12,988,353 wedi cael ei wario ar gostau staff ac roedd £964,647 wedi cael ei wario ar gostau nad oeddent yn ymwneud â staff, gyda gweithgarwch arolygu yn cyfrif am 61% o gostau staff.

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein darpariaeth TGCh yn ystod 2017-18. Mae ein system TGCh fewnol bellach yn ategu amrywiaeth o wasanaethau digidol i ddarparwyr cofrestredig sy'n datblygu, yn ogystal â diweddariadau awtomataidd i'n cyfeiriadur ar y wefan ac adroddiadau arolygu cyhoeddedig. Mae ein hymarfer ailgofrestru ar-lein yn cefnogi Deddf 2016 ac yn galluogi darparwyr i ddefnyddio eu cyfrif ar-lein ag AGC ar gyfer gwasanaethau rheolaidd megis cyflwyno hysbysiadau. Mae hwn yn rhoi gwasanaeth mwy cywir, diogel ac effeithlon i ddarparwyr ac yn arwain at arbedion effeithlonrwydd sylweddol i AGC.

## Trosolwg o wariant*




Cawsom hefyd:

- £1.5 miliwn o gyllid gan Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru i roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith.
- £380,000 gan yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru i roi newidiadau mewn perthynas ag estyn gofal plant (pennu'r oedran uchaf ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig i 12 oed) ar waith ac i weinyddu'r cynllun nani.

* Cafodd **gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** eu hariannu ar gyfer darparwyr cofrestredig a staff AGC. Mae **Arall** yn cyfuno nifer o gostau llai, er enghraifft hyfforddiant staff a chyfathrebu.

## Cyfathrebu ac ymgysylltu

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan hollbwysig o'n gwaith. Dyna pam rydym yn cyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy lawer o sianeli, gan gynnwys Twitter, Facebook, a'n gwefan www.arolygiaethgofal.cymru. Rydym hefyd yn teimlo ei bod yn wirioneddol bwysig siarad ag unigolion yn uniongyrchol a gwnaethom fynychu 52 o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid eleni.

Gwnaethom fynychu **52** o ddigwyddiadau, cynadleddau a gweithdai... yr un faint â'r cyfnod blaenorol.

+1%

Cawsom ein crybwyll **257** mentions... o gymharu â **254** yn ystod y cyfnod blaenorol. Cawsom ein crybwyll **69** o weithiau ym mis Hydref 2017 yn sgil cyhoeddi'r adroddiad ar wasanaethau plant Powys.

+45%

Gwnaethom siarad â **592** o bobl yn ystod Sioe Frenhinol Cymru 2017... o gymharu â **408** y flwyddyn flaenorol.

+3%

Cafwyd **524,785** o sesiynau ar ein gwefan... o gymharu â **510,441** yn ystod y cyfnod blaenorol. Mae'n debygol bod hyn wedi digwydd yn sgil gwaith cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r ffaith ein bod wedi newid ein henw a'r angen i ailgofrestru o dan y Ddeddf newydd.

Cyrhaeddodd ein cylchlythyr misol dwyieithog **4,774** o danysgrifwyr ym mis Mawrth 2018...o gymharu â **2,480** ym mis Mawrth 2017.

+93%

Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i weithgarwch cyfathrebu parhaus i annog pobl i danysgrifio.

Cafodd ein cyfrifon Twitter Cymraeg a Saesneg gyfanswm o **501,800** o argraffiadau rhyngddynt... o gymharu â **600,200** yn ystod y cyfnod blaenorol.

-17%

YouTube

Denodd ein sianel YouTube **1,400** o wylwyr... o gymharu â **1,597** gymharu â 1,597.

-12%


# Ein harolygiadau

“Rydym wedi gwneud cynnydd mawr yn ystod y flwyddyn, ac yn parhau i gyflawni’r blaenoriaethau a nodwyd ac a amlinellwyd yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017-20. Bydd y newidiadau a wnaed gennym yn ystod y cyfnod hwn yn cefnogi ein hymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel ym mhob rhan o Gymru.”

*Gillian Baranski, Y Prif Arolygydd*



## Nifer y gwasanaethau a arolygwyd gennym, 2017-18



# Tîm arolygu awdurdodau lleol

**Rydym yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau ym maes gwasanaethau cymdeithasol.**

## Trosolwg

Mae'r tîm arolygu awdurdodau lleol yn cefnogi gwelliant o ran ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn diogelu pobl a galluogi pobl i sicrhau'r canlyniadau a ddymunant. Rydym yn cymryd camau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn bodloni gofynion deddfwriaethol.

Rydym hefyd yn rhoi sicrwydd i Weinidogion Cymru a'r cyhoedd ar ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol.


## Ein dull gweithredu

- Rydym yn canolbwyntio ar les pobl a'r canlyniadau y maent yn cael eu cefnogi i'w sicrhau.
- Mae ein gwaith yn seiliedig ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chryfderau a ategir gan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i safonau ansawdd cysylltiedig ar gyfer awdurdodau lleol.
- Rydym yn ymrwymedig i glywed llais pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Gwnawn hyn drwy gylch o arolygu a gwerthuso perfformiad.

Bob blwyddyn, rydym yn anelu at gynnal 11 o arolygiadau â thema wedi'u trefnu. Rydym hefyd yn cynnal arolygiadau ymatebol lle mae gennym bryderon ynghylch adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, ac arolygiadau dilynol i asesu cynnydd ar ôl arolygiad lle rydym wedi nodi pryderon sylweddol. Bob blwyddyn, byddwn yn cytuno ar ffocws ar gyfer gweithgarwch arolygu ac ymgysylltu wedi'i drefnu. Lle y bo'n briodol, caiff adroddiad trosolwg cenedlaethol ei baratoi.

## Ardaloedd awdurdodau lleol



# Rydych chi'n dylanwadu ar ein gwaith

**Un rhan bwysig o waith y tîm yw ymgysylltu â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol, eu gofalwyr a'r staff rheng flaen. Rydym yn gwneud hyn yn ystod ein gwaith maes arolygu ac yn ystod cyfleoedd eraill drwy gydol y flwyddyn, er enghraifft mynd i grŵp gofalwyr neu gyfarfod â phobl sy'n defnyddio gwasanaeth. Mae adborth gan bobl yn helpu i lywio ein rhaglen waith yn y dyfodol.**

Ac mae ein gweithgarwch parhaus â'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru yr un mor bwysig. Wrth adolygu perfformiad awdurdod lleol o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol, rydym yn gwerthuso ystod o wybodaeth a gasglwyd gan y canlynol:

- arolygiadau, gan gynnwys arolygiadau o wasanaethau rheoleiddiedig (er enghraifft cartrefi gofal)
- gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, gwnaethom ddosbarthu holiadur hunanasesu am gymorth i blant sy'n derbyn gofal i bob awdurdod lleol ac yna'i drafod mewn cyfarfod â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Caiff y canlyniadau eu cynnwys mewn adroddiad cenedlaethol unwaith y bydd yr arolygiadau wedi'u cwblhau.
- gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
- adolygiadau perfformiad blynyddol gyda phob awdurdod lleol;
- cyfarfodydd rheolaidd â phenaethiaid gwasanaethau oedolion a phlant ym mhob awdurdod lleol er mwyn trafod cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i wneud gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd mewn arolygiadau neu gyfarfodydd perfformiad blaenorol yn ogystal â themâu sy'n codi o'n gweithgarwch ymgysylltu. Lle rydym yn cael arwydd o bryderon cynyddol, gallwn drefnu cynhadledd gwella drwy ymyriad cynnar er mwyn sicrhau gwelliant.

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n bwysig ein bod yn gweithredu yn seiliedig ar gryfderau yn ein gwaith yn hytrach na chanolbwyntio ar feysydd i'w gwella yn unig. Rydym yn rhannu ymarfer cadarnhaol â chydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, partneriaid Arolygiaeth Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth.

"Yn ystod arolygiadau o wasanaethau plant cawn lawer o gyfleoedd i arsylwi ar ymarfer sy'n ein helpu i ddeall sut mae'r awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau i ddiogelu plant. Rydym wedi gweld enghreifftiau o weithwyr cymdeithasol brwdfrydig sy'n ymrwymedig i gefnogi plant o fewn eu teuluoedd. Rydym wedi gweld gweithiwr cymdeithasol yn defnyddio'r model arwyddion diogelwch i'w helpu i benderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf er mwyn diogelu plant a hyrwyddo canlyniadau da. Yn ein harolygiadau o wasanaethau plant rydym wedi siarad â llawer o weithwyr cymdeithasol ac mae eu hagwedd gadarnhaol a'u dyfalbarhad wrth helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn wedi gwneud cryn argraff arnom. Gwelsom dystiolaeth o dimau ymylon gofal yn gweithio'n ddwys gyda theuluoedd, ochr yn ochr â thimau gwaith cymdeithasol ac asiantaethau partner er mwyn galluogi plant i barhau i fyw gartref ac osgoi'r angen iddynt fod yn blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol."

*Rheolwr Tîm, Tîm Awdurdodau Lleol, AGC*

# Trosolwg arolygu o awdurdodau lleol 2017-18

Yn 2017-18, cynhaliwyd yr arolygiadau canlynol gennym:

- Gwasanaethau plant Powys (Gorffennaf 2017)
- Gwasanaethau oedolion Powys (Ionawr 2018)

Dechreuwyd ar ein rhaglen o arolygiadau â thema o wasanaethau plant, y cwblhawyd un ohonynt yn ystod 2017-18 (Blaenau Gwent) gyda phump arall yn yr arfaeth yn 2018/19.

Mae'r arolygiadau yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdodau lleol i helpu ac amddiffyn plant a'u teuluoedd, gan gynnwys:

- profiad a chynnydd plant ar ymylon gofal, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal gan gynnwys ansawdd ac effaith gwasanaethau atal, effeithiolrwydd prosesau gwneud penderfyniadau, gofal a chymorth a chynllunio llwybrau;
- y trefniadau i sicrhau sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n dychwelyd adref gan gynnwys defnyddio gwasanaethau maethu, gofal preswyl a lleoliadau y tu allan i'r awdurdod lleol;
- cydymffurfiaeth â rheoliadau gwasanaethau maethu a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol;
- ansawdd y trefniadau arwain, rhianta corfforaethol a llywodraethu sydd ar waith i bennu, datblygu a chefnogi gwasanaethau digonol a'u darparu yn enwedig mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a'u teuluoedd.

Er mai prif ffocws yr arolygiad fydd cynnydd a phrofiadau pobl ifanc, a phroses bontio'r rhai sy'n gadael gofal i fyd oedolion, bydd yr arolygiad yn cynnwys ymgysylltu â'r canlynol:

- gwasanaeth gwybodaeth, cyngor neu gymorth (IAA), gwasanaethau ataliol;
- asesu/ailasesu anghenion gofal a chymorth, a gwaith cynllunio;
- ymholiadau amddiffyn plant, gweithdrefnau, camau amddiffyn brys a chynlluniau amddiffyn gofal a chymorth.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio gydag arolygiaethau eraill yn agwedd bwysig ar waith y tîm awdurdodau lleol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn osgoi dyblygu ac yn cynnal ffocws ar ofal cymdeithasol yn ystod gweithgarwch arolygu.

- **Mabwysiadu:** Rydym yn arolygu gwasanaethau mabwysiadu. Yn sgil y newid i drefniadau consortia rhanbarthol yng Nghymru roedd gofyn am ffordd newydd o arolygu. Gwnaethom arolygu gwasanaeth Western Bay Adoption a gwnaethom hefyd gynnal adolygiad o drefniadau mabwysiadu cenedlaethol. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan.
- **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC):** Gwnaethom gyfrannu at adolygiad AGIC o saith tîm Iechyd Meddwl Cymuned ym mhob ardal bwrdd iechyd. Canolbwyntiodd yr adolygiadau ar un Tîm Iechyd Meddwl Cymuned fesul bwrdd iechyd. Caiff adroddiad trosolwg cenedlaethol ei gyhoeddi yn ystod hydref 2018. Gellir gweld yr adroddiadau ar ein gwefan.
- **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi:** Gwnaethom ymuno ag arolygiad o garchar Caerdydd ym mis Chwefror er mwyn ystyried effeithiolrwydd dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i dimau awdurdodau lleol asesu a diwallu anghenion oedolion yn y carchar (lle y bo angen).

## Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am fonitro'r ffordd y mae DoLS yn gweithredu yng Nghymru. Mae'r mesurau diogelu yn bodoli i rymuso ac amddiffyn unrhyw unigolyn lle mae amheuaeth ynglŷn â'i alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch eu gofal pan fyddant yn yr ysbyty neu'n byw mewn cartref gofal.

Caiff y gwaith o fonitro DoLS ei wneud ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a ninnau, ac rydym wedi cyhoeddi adroddiad monitro ar y cyd gan AGIC/AGC ar y ffordd y mae DoLS yn gweithredu ar gyfer 2016-17.

Casglwyd data oddi wrth y 22 o awdurdodau lleol a'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru, sy'n gyrff goruchwylio ar gyfer cynnal yr asesiadau annibynnol o alluedd, ac sy'n penderfynu p'un a ddylid awdurdodi amddifadu rhywun o'i ryddid.

### Ein canfyddiadau

- Erys y gwaith o reoli nifer yr awdurdodiadau DoLS a'r adolygiadau dilynol yn her o hyd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd.
- Mae ceisiadau wedi cynyddu 9% ers y flwyddyn flaenorol i 13,627, gyda 4,819 ohonynt wedi'u cyflwyno i fyrddau iechyd ac 8,811 ohonynt wedi'u cyflwyno i awdurdodau lleol.
- Oedran cyfartalog unigolyn sy'n destun cais DoLS yw 79 oed, ac roedd bron 60% o geisiadau yn ymwneud â menywod.
- Bu gwahaniaeth sylweddol yn y cynnydd mewn niferoedd rhwng lleoliadau gofal cymdeithasol ac ysbytai. Oherwydd anghysondebau mewn ymarfer a threfniadau cofnodi data, mae'n anodd cysoni'r amrywiadau hyn.
- Mae mwy o geisiadau yn dod i law bob mis nag y gellir eu prosesu, gyda thri phenderfyniad yn cael ei wneud ar gyfer pob pedwar cais sy'n dod i law.
- I gael penderfyniad ar gais roedd yn cymryd 42 diwrnod ar gyfartaledd ar gyfer ceisiadau brys a 69 diwrnod ar gyfer ceisiadau safonol.
- Nid yw nifer y ceisiadau yn gynaliadwy, nid oes penderfyniad ar geisiadau o fewn y terfyn amser a argymhellir, gallai cartrefi gofal ac ysbytai aros yn hir o bosibl heb awdurdodiad.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

### Bil Diwygio Galluedd Meddyliol

- Ers cyhoeddi adroddiad monitro ar y cyd AGIC/AGC ar weithredu DoLS ar gyfer 2016/17, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Diwygio Galluedd Meddyliol i Dŷ'r Arglwyddi er mwyn diwygio'r ddeddfwriaeth hon.
- Os caiff ei ddeddfu fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, bydd y ddeddfwriaeth yn creu rôl ehangach i AGIC/AGC yn y gwaith o fonitro'r ffordd y mae cynllun newydd yn gweithredu mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae AGIC/AGC a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a rhanddeiliaid ledled Cymru i ddeall, egluro a dechrau ystyried y goblygiadau i Gymru, wrth i'r Bil fynd ar ei hynt.
- Mae AGC ac AGIC yn parhau i weithio gyda'r cyrff cyfrifol mewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, gan ddarparu cymorth i ddadansoddi data er mwyn gwella cysondeb rhoi gwybod am ddata monitro presennol.
- At hynny, mae AGC yn rhoi system hysbysu newydd ar waith fel rhan o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Deddf 2016), gan gynnwys hysbysiadau o geisiadau DoLS gan gartrefi gofal cofrestredig.

“Mae ein tîm yn gweld rhai enghreifftiau gwych o ofal. Gwnaethom ymweld â defnyddiwr gwasanaeth gofal yn y cartref a’i wraig. Roeddent yn hanu o Sweden yn wreiddiol. Dywedodd ei wraig wrthyf fod dementia ei gŵr yn aml yn golygu ei fod yn troi i’r Swedeg. Roedd rhai aelodau o staff wedi dysgu nifer o ymadroddion yn Swedeg er mwyn ei wneud yn fwy cyfforddus â’r gofal y maent yn ei ddarparu.”

*Rheolwr Tîm, Tîm arolygu gwasanaethu oedolion a phlant, AGC*

# Tîm arolygu gwasanaethau oedolion a phlant

## Trosolwg

**Mae’r tîm arolygu gwasanaethau oedolion a phlant yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau gofal rheoleiddiedig i oedolion a phlant yn darparu gofal diogel o ansawdd da, ac am annog ac ysgogi gwelliant.**

### Ein dull gweithredu

- Rydym yn cynnal rhaglen o weithgarwch arolygu.
- Rydym yn ymgynghori â phobl sy’n defnyddio gwasanaethau ac yn ymateb i bryderon gan ddefnyddwyr y gwasanaethau hynny, teuluoedd, gofalwyr a’r cyhoedd.
- Rydym yn llunio adroddiadau ar ein holl weithgarwch arolygu, gyda ffocws ar y canlyniadau y mae’r gwasanaeth yn eu sicrhau i bobl o ran llesiant; gofal a chymorth; yr amgylchedd; ac arwain a rheoli.
- Rydym yn sicrhau datblygiad ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys pobl sy’n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr, comisiynwyr awdurdodau lleol, swyddogion diogelu, a Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol.
- Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, yr heddlu ac arolygiaethau eraill er mwyn cefnogi proses reoleiddio effeithiol.

Mae gweithrediad Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn dechrau yn 2018/19, ac mae’r tîm yn cefnogi ac yn cynghori darparwyr y gwasanaethau hynny wrth iddynt newid i strwythur deddfwriaethol newydd, er mwyn sicrhau bod pobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau hynny yn cael parhad gofal yn unol â’r gofynion rheoliadol a’r fframweithiau arolygu newydd.

# Manylion am weithgarwch arolygu AGC 2017-18

Ffynhonnell: system rheoli data AGC

## Cofrestru

Cofrestrwyd **371** o wasanaethau a chanslwyd **507** o wasanaethau.

## Gweinyddu

Proseswyd **323** o geisiadau ar gyfer rheolwyr newydd.

Ymdriniwyd â **5,010** o newidiadau i gofrestriadau a ffyrdd o weithio gwasanaethau 2017–18...

## Arolygu

Roedd hyn yn cynnwys **14** o arolygiadau ar benwythnosau.

Cynhaliwyd **2,955** o arolygiadau mewn gwasanaethau i oedolion, a gwasanaethau gofal plant a gwasanaethau plant.

... a chawsom **35,937** o hysbysiadau...

## Gwella gwasanaethau

Nodwyd **312** o wasanaethau nad oeddent yn bodloni'r gofynion rheoleiddio.

## Cymryd camau

Hysbyswyd **54** o'r **312** o wasanaethau eu bod yn wasanaeth sy'n achos pryder.

Sicrhawyd gwelliannau mewn **33** o'r gwasanaethau. Ym mis Mawrth 2018 rydym yn parhau i fonitro'r **21** arall.

Ymatebwyd i **33** o gwynion o dan Bolisi Cwynion Llywodraeth Cymru.

Ymatebwyd i **25** o Geisiadau am Wybodaeth (DPA/FOI).

Gwerthuswyd pob adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru.



# Newid y ffordd rydym yn rheoleiddio gwasanaethau oedolion a phlant

## Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 (Deddf 2016). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn newid mawr o ran sut rydym yn rheoleiddio gwasanaethau oedolion a phlant, gan roi pobl yn bendant wrth wraidd rheoleiddio, a chanolbwyntio ar eu canlyniadau personol a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'n cyflwyno model rheoleiddio hollol newydd yn ei sgil, gan osod atebolrwydd am ansawdd gofal yn sicr ar y lefel uchaf o fewn sefydliad darparwr.

Bydd hefyd yn rhoi hyblygrwydd i'r farchnad gofal cymdeithasol ac yn ei gwneud yn bosibl i arloesi drwy ddatblygu modelau gofal newydd.

## Effaith y Ddeddf 2016

**Bydd y Ddeddf 2016 yn sicrhau gwell gofal cymdeithasol i bobl Cymru.** Un ffordd o wneud hyn yw drwy wneud darparwyr gofal yn fwy atebol a chyfrifol os bydd pethau'n mynd o chwith.

**Bydd y ffordd rydym yn cofrestru ac yn arolygu gwasanaethau yn newid.** Bydd ein harolygiadau yn canolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar y ffordd y mae gwasanaethau'n sicrhau bod anghenion llesiant pobl yn cael eu diwallu. Bydd ffocws ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gofal a chymorth, a bydd gennym bwerau ychwanegol i sicrhau y gallwn gymryd camau cyflymach a chadarnach pan fo angen i ni wneud hynny.

**Bydd yn ofynnol i bob gwasanaeth i oedolion a phlant a reoleiddir ailgofrestru** o dan y ddeddfwriaeth newydd hon yn ystod 2018 a 2019.

Buom yn treulio rhan helaeth o'r flwyddyn yn siarad â staff, darparwyr a rhanddeiliaid a gweithio gyda nhw er mwyn helpu i lunio a datblygu dulliau gweithredu newydd yn unol â Deddf 2016.

Mae hyn wedi cynnwys:

- **Cofrestru.** Mae ein rôl fel rheoleiddiwr annibynnol yn golygu mai ni sy'n penderfynu pwy all ddarparu gwasanaeth gofal. Rydym am sicrhau mai dim ond y darparwyr hynny a fydd yn darparu gofal diogel o ansawdd uchel a gaiff eu cofrestru i wneud hynny. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi canllawiau i wasanaethau oedolion a phlant, gan nodi ein dull gweithredu a rhoi eglurder i ddarparwyr ar y gofynion cofrestru. Gwnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau ar lunio datganiad o ddiben. Mae hon yn ddogfen allweddol sy'n nodi gweledigaeth y darparwr ar gyfer y gwasanaeth a'r ffordd y bydd yn diwallu anghenion y bobl sy'n derbyn gofal.
- **Arolygu.** Rydym yn arolygu gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru â ni er mwyn cadarnhau eu bod yn parhau i ddarparu gofal diogel. Rydym hefyd yn cadarnhau p'un a yw hawliau pobl yn cael eu parchu a ph'un a yw ansawdd eu bywyd yn well. Yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddwyd cod ymarfer ar gyfer arolygu gennym sy'n nodi'r ffordd y byddwn yn arolygu'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu rheoleiddio o dan Deddf 2016, gan gynnwys amlder arolygiadau. Mae'r cod yn rhoi gwybodaeth i bawb am y ffordd y caiff gwasanaethau gofal a chymorth eu harolygu yng Nghymru.
- **Sicrhau gwelliant a gorfodi.** Lle rydym yn gweld gofal gwael, rydym yn cymryd camau gweithredu. Cyhoeddwyd ein 'Polisi sicrhau gwelliant a gorfodi' sy'n esbonio'r hyn a wnawn os nad yw gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd da, neu os nad ydynt yn bodloni gofynion y gyfraith a'r ffordd rydym yn gwneud ein penderfyniadau ynglŷn â gorfodi.

Un ffocws pwysig yn ein gwaith fu paratoi i ailgofrestru pob gwasanaeth preswyl i oedolion a phlant a phob gwasanaeth cymorth yn y cartref yn ystod 2018/19. Roedd hyn yn cynnwys cael gwared ar geisiadau ar bapur yn raddol a datblygu system gofrestru ar-lein a chanllawiau i ddarparwyr.

Rydym wedi mynd ati i ymgysylltu â darparwyr drwy raglen sylweddol er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gyfraith newydd ac yn barod amdani. Roedd hyn yn cynnwys:

- cyfres o 12 o ddigwyddiadau i ddarparwyr ledled Cymru lle gwnaethom gwrdd â mwy na 600 o ddarparwyr;
- cynnig cymhorthfeydd unigol lle y cafodd darparwyr gyfle i siarad yn unigol ag arolygwyr cofrestru a gynigiodd gyngor ac arweiniad ar ailgofrestru a gofynion o dan Deddf 2016.

Rydym wedi buddsoddi mewn rhaglen helaeth o hyfforddiant i'n harolygwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddeddfwriaeth newydd a'r dulliau rheoleiddio a'u bod yn ei chymhwyso yn eu gweithgarwch rheoleiddio.

Rydym wedi diweddaru ein gwefan i wella mynediad at wybodaeth i'r cyhoedd ac i ddarparwyr. Mae gennym gofrestr ar-lein o ddarparwyr gwasanaethau bellach. Mae ein gwefan bellach yn cynnig mynediad hawdd at adroddiadau arolygu ac arweiniad i'r cyhoedd ac i ddarparwyr drwy nifer o ddyfeisiau, gan gynnwys llechi a ffonau clyfar.

# Tîm arolygu gofal plant a chwarae

## Trosolwg

Rôl y tîm gofal plant ac arolygu yw helpu i sicrhau bod gofal plant a chwarae yn ddiogel ac yn darparu gofal sy'n meithrin plant ac yn cefnogi eu datblygiad meddyliol, emosiynol a chymdeithasol.

Er mwyn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, rydym yn gweithio gyda darparwyr ledled Cymru er mwyn helpu i ddarparu system blynyddoedd cynnar ymatebol a chydgysylltiedig lle mae anghenion unigryw pob plentyn yn rhan ganolog ohoni.

### Ein dull gweithredu

- Rydym yn rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar gan ddefnyddio'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru, gyda Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi'r pŵer i gofrestru ac arolygu darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Rydym yn arolygu gwasanaethau gofal dydd llawn o leiaf unwaith bob dwy flynedd a gwasanaethau eraill (gan gynnwys gwarchodwyr plant) o leiaf unwaith bob tair blynedd. Gallwn arolygu'n amlach na hynny os caiff pryderon ynglŷn â gwasanaeth eu codi gyda ni, neu os oes angen i ni wneud gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd mewn arolygiad blaenorol. O dan yr amgylchiadau hyn, rydym yn defnyddio arolygiad â phwyslais penodol a all ond ystyried rhai agweddau ar y gwasanaeth.

Rydym wedi parhau i baratoi ar gyfer cyhoeddi statws gwasanaethau yn ein hadroddiadau. Bydd rhagor o ymgysylltu â darparwyr yn sail i'n hamserlen weithredu wedi'i diweddaru, sef dechrau 2019.

Hefyd, gwnaethom ragor o waith cynllunio manwl ar y cyd ag Estyn er mwyn paratoi ar gyfer rhaglen o arolygiadau ar y cyd o leoliadau nas cynhelir. Mae'r ddau amcan strategol mawr hyn yn ychwanegol at arolygiadau o 1,492 o wasanaethau a gynhaliwyd gennym yn 2017-18.

Efallai fod ein harolygiadau yn rheolaidd, ond maent ymhell o fod yn gyffredin. Mae pob gwasanaeth yn unigryw, a hefyd bob plentyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Ein gwaith ni yw herio'r gwasanaethau hynny i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plant y maent yn eu gwasanaethu.

### Statws gwasanaethau gofal plant a chwarae

Cyflwynwyd statws 'mud' ar gyfer ein harolygiadau o wasanaethau gofal plant a chwarae yn 2016. Golyga hyn fod y manylion, hyd yma, wedi cael eu rhannu â darparwyr ond nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi yn ein hadroddiadau. Drwy weithredu yn y modd hwn rydym wedi llwyddo i fonitro ac adolygu ein dull gweithredu yng ngoleuni adborth gan ddarparwyr unigol, eu sefydliadau cynrychioliadol a chan ein timau arolygu.

Pennir statws yn erbyn pob un o'n pedair thema arolygu. Nid ydym yn rhoi statws cyffredinol. Byddai'n well gennym pe bai darparwyr yn canolbwyntio ar y meysydd penodol i'w gwella yn hytrach na rhoi pwyslais ar statws cyffredinol.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r pedwar statws posibl a disgrifydd ar gyfer pob un.

| Statws | Disgrifydd |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o ardaloedd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfiaeth sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth. |

Rydym yn bwriadu cyhoeddi statws gwasanaeth ar gyfer pob un o'n harolygiadau o wasanaethau gofal plant a chwarae o ddechrau 2019. Mae lleiafrif o wasanaethau nad ydynt eto wedi cael profiad o statws mud. Ni chaiff statws y gwasanaethau hyn ei gyhoeddi nes eu bod wedi cael statws mud.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru drwy 'Cwlwm' i gasglu ac ystyried adborth gan ddarparwyr am eu profiad o gael statws mud. Caiff hyn ei ddefnyddio i lywio unrhyw newidiadau terfynol i'n dull gweithredu.

Mae'n bwysig gweld mai dim ond un agwedd (er yn bwysig) ar y ffordd rydym yn rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau, a chefnogi gwelliant, y mae cyhoeddi statws. Caiff cyd-destun hollbwysig y statws cyhoeddedig ei roi yn y canfyddiadau manwl yn ein hadroddiadau; argymhellion ar gyfer gwella; a'r adborth llafar a roddir i ddarparwyr yn union ar ôl yr arolygiad.



## Rhaglen arolygu ar y cyd ag Estyn

### Cam peilot

Yn 2015-16, cynhaliwyd rhaglen arolygu peilot ar y cyd rhwng AGC ac Estyn a oedd yn cynnwys 15 o wasanaethau ac yn llunio barn ar chwe thema'r fframwaith arolygu ar y cyd. Yn dilyn y rhaglen beilot, comisiynwyd gwerthusiad annibynnol yn ystod haf 2016 gan Arad Research a Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru. Canfu fod y rhaglen beilot wedi dangos y gellir cyflwyno'r cydsyniad o gydweithio yn ymarferol. Er bod pwyntiau dysgu pwysig i'r arolygiaethau, roedd neges gyffredinol y gwerthusiad yn gadarnhaol.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag Estyn ac, o fis Ionawr 2019, byddwn yn arolygu gofal ac addysg ar y cyd mewn lleoliadau wedi'u rheoleiddio nad ydynt yn ysgolion sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser. Yn ystod yr arolygiadau ar y cyd hyn, byddwn yn arolygu gofal yr holl blant hyd at 12 oed ac addysg plant 3 a 4 oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir.

Bydd ein gwaith ar y cyd

- yn lleihau'r baich ar ddarparwyr ac yn gwneud y broses o arolygu gwasanaethau nas cynhelir yn fwy effeithiol ac effeithlont;
- yn rhannu adnoddau er mwyn arbed amser, ymdrech ac arian cyhoeddus;
- yn arwain at un adroddiad arolygu a fydd yn cwmpasu safonau addysg a gofal plant;
- yn sicrhau mai canlyniadau i blant yw ein prif ystyriaeth.

# Camau nesaf

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau fframwaith arolygu ar y cyd drafft ym mis Medi 2018. Byddwn hefyd yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau gyda phob darparwr gofal plant a chwarae ledled Cymru ym mis Tachwedd 2018. Caiff rhagor o wybodaeth am y fframwaith arolygu ar y cyd ei chynnwys yn y digwyddiadau hyn.

## Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth

Yn 2017, cwblhaodd darparwyr gofal plant a chwarae ran dau o'u Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Cyflwynodd 76% o'r darparwyr sydd wedi'u cofrestru ag AGC eu ffurflen drwy ein gwasanaeth ar-lein, AGC Ar-lein. Cwblhawyd rhan gyntaf y datganiadau hunanasesu gwasanaeth yn 2016.

**Ein canfyddiadau**

- Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi rhoi'r polisïau angenrheidiol ar waith. Y prif faes i'w wella oedd polisïau ynglŷn â phlant ar goll, nad oedd gan 28 o ddarparwyr bolisi o'r fath ar waith.
- Nid oedd lleiafrif o wasanaethau wedi adolygu polisïau allweddol yn ôl y gofyn. Nid oedd 38 o wasanaethau gofal dydd llawn wedi adolygu un neu fwy o bolisïau allweddol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Nid oedd 61 o wasanaethau eraill wedi adolygu un neu fwy o bolisïau allweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Dim ond 9 gwasanaeth a ddywedodd fod unrhyw agwedd ar eu darpariaeth yn 'wael'. Mae'r proffad o roi statws mud ers 2016, yn awgrymu, o ran lleiafrif o ddarparwyr, fod bwlch sylweddol rhwng eu hasesiad eu hunain o'u perfformiad ac asesiad AGC.
- Dywedodd tri chwarter y gwarchodwyr plant a gyflwynodd ffurflen eu bod yn debygol o roi caniatâd i adroddiadau arolygu gael eu cyhoeddi. Mae AGC yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiadau, heb gyfeiriad y gwarchodwr plant, yn y dyfodol.

Bydd ein harolygwyr yn parhau i ddefnyddio'r wybodaeth yn y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth wrth iddynt baratoi ar gyfer arolygiadau.



# Arolygu yn ysgogi gwelliant

"Arweiniodd pryder a godwyd gydag AGC at arolygiad dirybudd llawn o feithrinfa gofal dydd fawr. Nododd ein fframwaith arolygu newydd, gyda'r ffocws ar lesiant a chanlyniadau i blant, arweinyddiaeth a rheolaeth wael iawn yn y feithrinfa. Diffyg arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol oedd achos sylfaenol nifer o fethiannau difrifol, gan gynnwys gofal plant, goruchwyliaeth a diogelu annigonol a pheryglon yn yr amgylchedd.

Gwnaethom gynnwys y rheolwyr drwy gydol y broses arolygu a rhoi adborth manwl ar y ffordd roedd yr achosion hyn o dorri rheoliadau yn effeithio ar lesiant plant. Nododd yr adroddiad arolygu ein canfyddiadau yn fanwl ynglŷn â phob un o'r pedair thema arolygu, gan gynnwys ansawdd llesiant, gofal a datblygiad, yr amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn y feithrinfa; a nododd y gofynion a'r argymhellion i wella; Roedd y staff arwain a rheoli yn y feithrinfa yn agored gyda ni, gan gytuno ar ein hadborth. Rhoddwyd cyfle iddynt (o fewn amserlen benodol) i gyflwyno cynllun i ni ar sut y byddent yn mynd i'r afael â'r methiannau difrifol hyn.

Cynhaliwyd ail arolygiad dirybudd o'r feithrinfa, a ganolbwyntiodd ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod ein harolygiad cyntaf a llesiant y plant hefyd. Gwelsom fod yr arweinwyr a'r rheolwyr, gydag ymwneud yr holl staff, wedi adolygu ac wedi newid holl arferion a gweithdrefnau'r feithrinfa.


Roedd cryn nifer o welliannau amgylcheddol wedi cael eu gwneud. Gwelsom fod y newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant plant. Pan ystyriwyd y dystiolaeth gennym, daethom i'r casgliad fod safonau wedi codi ym mhob un o'r pedair thema arolygu; cymaint felly, fel y daethom i'r casgliad y dylid rhoi statws 'Da' iddynt.

Pan gawsant eu holi am eu profiad o'r broses arolygu, dywedwyd, er ei bod yn neges anodd iawn i'w chlywed ar y dechrau, eu bod yn teimlo iddo fod yn brofiad teg a chadarnhaol. Yn anad dim, roedd y plant a'r staff yn hapusach ac roeddent yn ymfalchïo yn yr holl newidiadau yr oeddent wedi'u gwneud er gwell."

*Arolygydd, Tîm arolygu gofal plant a chwarae, AGC*

## Nifer gwasanaethau a reoleiddir gan AGC

Ffynhonnell: system rheoli data AGC



# Cyflawniadau sefydliadol



"Byddwn yn agored ac yn dryloyw gyda diwylliant o welliant parhaus a safonau gwasanaeth o ansawdd da yn greiddiol i ni. Mae'r dyheadau hyn yn seiliedig ar ein gwerthoedd craidd – byddwn yn gweithio'n onest, byddwn yn dangos parch a byddwn yn ofalgar, yn deg ac yn broffesiynol bob amser."

*Cynllun Strategol Arolygiaeth Gofal Cymru, 2017-20*

> “Rwyf wir yn edrych ymlaen at ddefnyddio’r system ar ei newydd wedd. Bydd yn sicr yn ein helpu i baratoi ar gyfer ein harolygiad.”
>
> *Arolygydd, AGC*

## Dod yn sefydliad digidol

Mae ein cynnydd tuag at ddod yn sefydliad cwbl ddigidol wedi cyflymu. Mae ein systemau bellach yn cynnal amrywiaeth o wasanaethau digidol i ddarparwyr cofrestredig sy’n datblygu. Mae’r newidiadau rydym wedi’u gwneud yn rhoi gwasanaeth cywir, diogel ac effeithlon i ddarparwyr ac yn creu arbedion effeithlonrwydd sylweddol i AGC.

## Dod yn fwy effeithlon

Gwnaethom awtomeiddio diweddariadau i’r cyfeiriadur ar-lein a chyhoeddi adroddiadau arolygu ar ein gwefan. Mae cysylltu’r systemau yn y ffordd hon yn golygu ein bod yn cynnig elfennau o’n data byw yn uniongyrchol i’r cyhoedd, fel y gallant weld ein gwybodaeth ddiweddaraf.

Gyda’r strwythur sefydliadol newydd yn symud o weithredu ar sail ranbarthol i weithredu ar sail swyddogaethol genedlaethol ym mis Tachwedd 2017, cafodd ein system TGCh ei diweddaru er mwyn adlewyrchu’r ffordd newydd hon o weithio.

## Defnyddio technoleg i gynnal swyddogaethau busnes

Rydym wedi cyflwyno technoleg sydd wedi helpu darparwyr i gydymffurfio â’r gofyniad i ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Deddf 2016).

Y cam cyntaf oedd galluogi’r sector i gwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Gofynnodd y datganiad byr hwn i ddarparwyr gadarnhau eu manylion cofrestru a rhoi amcan i ni o’u bwriadau ar gyfer eu gwasanaeth ar ôl mis Ebrill 2018.

## AGC Ar-lein

Agorodd ein gwasanaeth ar-lein i ailgofrestru ym mis Chwefror gan alluogi darparwyr i fynd ar AGC Ar-lein a dechrau gwneud cais i ailgofrestru. Roedd gofynion y ddeddfwriaeth newydd hefyd yn golygu bod angen newid ein system fewnol, fel y gall ein harolygwyr weld darparwyr gwasanaethau sydd wedi’u cofrestru o dan y Ddeddf 2016, yn ogystal â’r gwasanaethau cysylltiedig a gwybodaeth am y bobl sy’n gysylltiedig â’r darparwr gwasanaeth.

## Cyfeiriadur o wasanaethau

Byddwn yn lansio ein cyfeiriadur ar-lein newydd y flwyddyn nesaf ym mis Mai 2018. Er mwyn ategu’r gwaith sy’n gysylltiedig â Deddf 2016, byddwn yn cynnal newidiadau i’r ffordd y gellir integreiddio â’n gwefan, er mwyn sicrhau bod y llif o wybodaeth am wasanaethau sydd wedi’u cofrestru o dan y Ddeddf yn cynrychioli’r trefniadau deddfwriaethol newydd yn gywir yn ein cyfeiriadur o wasanaethau gofal.


# Perfformiad

## Cydymffurfiaeth

Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Gwnaethom gynnal 2,955 o arolygiadau yn ystod y flwyddyn ac o'r gwasanaethau a arolygwyd, nid oedd 4.5% yn cydymffurfio â'r gyfraith ar 31 Mawrth 2018.

## Cydymffurfiaeth ar 31 Mawrth 2018

Ffynhonnell: system rheoli data AGC



# Pryderon a godwyd


**Mae pryderon yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i ni ac maent yn aml yn cael eu codi gan y bobl sy'n defnyddio ac yn dibynnu ar y gwasanaethau gofal a reoleiddir gennym, yn ogystal â'u perthnasau, ymwelwyr, staff, gweithwyr proffesiynol neu gymdogion.**

Er nad yw AGC yn ymchwilio i gwynion, rydym yn croesawu gwybodaeth am y gwasanaeth rydym yn ei reoleiddio.

Caiff pob pryder ei adolygu gan arolygydd. Gall hyn arwain at arolygiad cynnar neu lywio'r arolygiad nesaf neu atgyfeiriad at yr awdurdod lleol fel y brif asiantaeth ar gyfer diogelu. Pan fydd arolygiad yn digwydd caiff y materion a godwyd eu hadlewyrchu yn yr adroddiad arolygu.

## Pryderon a godwyd 2017-18

Ffynhonnell: system rheoli data AGC




Preswyl oedolion
(gan gynnwys cynlluniau lleoliadau oedolion)
Gofal yn y cartref
(gan gynnwys asiantaethau nyrsys)

Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Gwasanaethau plant

**Cyfanswm y pryderon – 3,419**

# Edrych ymlaen



## Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

- Byddwn yn parhau â'r broses o roi Deddf 2016 ar waith drwy ganolbwyntio ar ailgofrestru pob gwasanaeth preswyl i oedolion a phlant a phob gwasanaeth gofal yn y cartref. Bydd hwn yn ddarn sylweddol o waith, ac rydym yn rhagweld y bydd angen ystyried 888 o geisiadau.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid er mwyn datblygu a threialu fframweithiau arolygu diwygiedig sy'n unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn datblygu methodoleg newydd ar gyfer arolygu gwasanaethau cymorth cartref a fydd yn sicrhau mai profiad pobl o ddefnyddio'r gwasanaeth fydd wrth wraidd ein gwaith arolygu. Byddwn yn treialu'r fframwaith a'r fethodoleg newydd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2018, gyda'r bwriad o'i roi ar waith yn llawn o fis Ebrill 2019.
- Byddwn yn dechrau ymgymryd â pharatoadau tebyg ar gyfer cofrestru gweddill y gwasanaethau plant o dan Ddeddf 2016 o fis Ebrill 2019. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoliadau oedolion a gwasanaethau eirioli.
- Byddwn yn cynnal adolygiad thematig o ansawdd y gofal mewn cartrefi gofal plant erbyn 31 Mawrth 2019.
- Byddwn yn llunio ac yn ymgynghori ar god ymarfer ar gyfer adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Bydd hyn yn amlinellu ein dull gweithredu gan sicrhau ffocws clir ar egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Byddwn yn parhau i weithio ar ddatblygu gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y sefydliad. Byddwn yn cyflwyno system ffôn newydd ac yn symleiddio prosesau er mwyn ei gwneud hi'n haws i'n defnyddwyr gysylltu ag AGC.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

- Byddwn yn newid y ffordd rydym yn gweinyddu'r gwiriadau hyn. Ni chaiff y gwiriadau eu rheoli'n uniongyrchol gennym mwyach. Yn hytrach, byddant yn cael eu rheoli gan ddarparwr allanol a fydd yn prosesu'r gwiriadau ar ein rhan. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr dalu ffi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a thâl gweinyddu am y gwasanaeth hwn.
- Byddwn yn cyflwyno trefniant trosiannol a fydd yn ariannu'r tanysgrifiad i Wasanaeth Diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y flwyddyn gyntaf (blwyddyn ariannol 2018-19).

## Gofal plant a chwarae

- Byddwn yn cyhoeddi statws gwasanaeth yn ein hadroddiadau arolygu ar gyfer pob gwasanaeth a gafodd statws mud yn flaenorol.
- Byddwn yn cyflwyno cofrestru a hysbysiadau ar-lein ar gyfer gofal plant a chwarae, gan ei gwneud yn haws i ddarparwyr newydd ymuno â'r farchnad ac i'r gwasanaethau presennol ein hysbysu am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau.
- Byddwn yn parhau i adolygu a mireinio ein methodoleg er mwyn sicrhau ei bod yn ein helpu i ganolbwyntio ar ganlyniadau i blant a'r hyn sy'n bwysig i rieni.
- Byddwn yn paratoi'r fframwaith a fydd yn galluogi darparwyr i lanlwytho Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn hawdd yn 2019.

0300 7900 126

AGC@llyw.cymru

arolygiaethgofal.cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**